


# CADW PELLTER CYMDEITHASOL



## Archebion parseli bwyd a wnaed gyda chyflenwyr:

- **12,274** hyd at 18 Mai
- Gan gynnwys **433** a dderbyniwyd ers dydd Gwener

## Nifer y danfoniadau y ceisiwyd eu gwneud:

- **35,911** hyd at 14 Mai
- **98%** wedi'u rhoi i breswlydd neu eu gadael ar garreg y drws
- **11,707** ohonynt yn ddanfoniadau cyntaf llwyddiannus

[Cefndir pellach ar barseli bwyd i'r rhai sy'n agored iawn i niwed](#)

# Y GRONFA CYMORTH DEWISOL


Rhwng 18 Mawrth a 15 Mai:

Gwnaed **13,264** o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ymwneud â COVID-19, gwerth cyfanswm o **£820,050**

Dechreuwyd cofnodi ar 18 Mawrth. Mae'r rhesymau cysylltiedig â COVID-19 y mae ymgeiswyr yn eu rhoi yn cynnwys: Gorfod rhoi'r gorau i weithio neu leihau gwaith; Oedi o ran hawlio budd-dal; Costau ynni/bwyd uwch (teulu gartref)

Nifer ddyddiol o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng

● a. Taliadau yn ymwneud â COVID-19 ● b. Taliadau Cymorth Mewn Argyfwng arferol ● Penwythnos/Gŵyl y banc



Yn dilyn cyhoeddiad 1 Mai o fwy o gyllid, bydd ceisiadau'n cael eu trin â mwy o ddisgresiwn a hyblygrwydd, wrth ddelio â hawliadau caledi COVID-19 [Cefndir pellach i'r CCD](#)

# CYMORTH I FUSNESAU


Hyd yn hyn mae awdurdodau lleol wedi cyhoeddi **50,700** o grantiau ardrethi busnes Covid-19 gwerth cyfanswm o dros **£622m**.

Derbyniodd Cynllun Benthyciad Busnes Cymru COVID-19 y Banc Datblygu **1,608** o geisiadau gwerth cyfanswm o **£103m**. Mae **1,351** o fusnesau ar draws Cymru wedi derbyn cyllid gwerth cyfanswm o **£87.2m** er mwyn gwarchod mwy na 15,700 swydd.

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd wedi derbyn bron i **6,900** o geisiadau micro-fusnes gwerth cyfanswm o **£66.9m**, a bron i **2,600** o geisiadau i fusnesau bach a chanolig gwerth cyfanswm o **£142.8m**. Mae'r Gronfa Busnes Mwy wedi derbyn gwerth dros **£26m** o geisiadau, gyda cheisiadau pellach yn cael eu prosesu sy'n dangos y bydd y ceisiadau'n debygol o gynyddu i tua **£28m**.

Rhagor o gefndir ar [Cymorth i Fusnesau](#).


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru  
Data ar ardrethi busnes a data'r Banc Datblygu fel yr oedd ar 17/05/20  
Noder: Data ERF wedi ei oedi am ganol dydd 27 Ebrill.



# ADDYSG

Nifer o blant mewn lleoliadau awdurdod lleol

● Cyfanswm y plant sy'n bresennol ● Nifer o blant i weithwyr hanfodol sy'n bresennol



Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru](#)

Data ar 14/05/20